# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 15 Mawrth 2018

Amser: 09.31 - 12.39

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4620

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Simon Thomas AC (Cadeirydd)<br>Neil Hamilton AC<br>Jane Hutt AC<br>Nick Ramsay AC<br>David Rees AC |
| Tystion: | Alison Gerrard, Swyddfa Archwilio Cymru<br>Anthony Barrett, Swyddfa Archwilio Cymru<br>Nicola Evans, Swyddfa Archwilio Cymru<br>Martin Peters, Swyddfa Archwilio Cymru<br>Ann-Marie Harkin, Swyddfa Archwilio Cymru<br>Suzy Davies AC, Comisiynydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad<br>Nia Morgan, Cyfarwyddwr Cyllid |
| Staff y Pwyllgor: | Bethan Davies (Clerc)<br>Leanne Hatcher (Ail Glerc)<br>Georgina Owen (Dirprwy Glerc) |

| | |
|---|---|
| | Joanne McCarthy (Ymchwilydd)<br>Owen Holzinger (Ymchwilydd)<br>Ben Harris (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Steffan Lewis AC a Mike Hedges AC.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

### 2.1 PTN1 - Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid at y Cadeirydd - Horizon 2020 Adroddiad Blynyddol 2017 - 7 Mawrth 2018

### 2.2 PTN2 - Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid at y Cadeirydd - Bondiau Buddsoddi Cyfalaf - 8 Mawrth 2018

### 2.3 PTN3 - Llythyr gan Gomisiwn y Cynulliad at y Cadeirydd - Craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2018-19 - 9 Mawrth 2018

## 3 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013: Sesiwn dystiolaeth (Swyddfa Archwilio Cymru)

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth ar drefn ffioedd Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 gan Alison Gerrard, Aelod o Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru; Anthony Barrett, Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol; Martin Peters, Pennaeth Cyfraith a Moeseg, Swyddfa Archwilio Cymru; a Nicola Evans, Pennaeth Cyllid, Swyddfa Archwilio Cymru.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitem 5 ac eitemau 8-11

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013: trafod y dystiolaeth

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 6 Ymchwiliad i'r tanwariant sy'n deillio o Benderfyniadau'r Bwrdd Taliadau: Sesiwn dystiolaeth 1 (Swyddfa Archwilio Cymru)

6.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth mewn perthynas â'i ymchwiliad i'r tanwariant sy'n deillio o Benderfyniadau'r Bwrdd Taliadau gan Anthony Barrett, Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol; ac Ann-Marie Harkin, Arweinydd Archwilio Ariannol ar gyfer archwilio cyfrifon Comisiwn y Cynulliad, Swyddfa Archwilio Cymru.

## 7 Ymchwiliad i'r tanwariant sy'n deillio o Benderfyniadau'r Bwrdd Taliadau: Sesiwn dystiolaeth 2 (Comisiwn y Cynulliad)

7.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth mewn perthynas â'i ymchwiliad i'r tanwariant sy'n deillio o Benderfyniadau'r Bwrdd Taliadau gan Suzy Davies AC, Comisiynydd y Gyllideb a Llywodraethu; Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad; a Nia Morgan, Cyfarwyddwr Cyllid, Comisiwn y Cynulliad.

## 8 Ymchwiliad i'r tanwariant sy'n deillio o Benderfyniadau'r Bwrdd Taliadau: trafod y dystiolaeth

8.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 9 Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru): trafod Adroddiadau Pwyllgor Cyfnod 1

9.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod yr adroddiadau Cyfnod 1 ar Fil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) gan y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

## 10 Gweithdrefn y Cynulliad ar gyfer Gorchmynion Adran 116C yn y Cyngor

10.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod llythyr gan y Pwyllgor Busnes ynghylch y newidiadau arfaethedig i'r Rheolau Sefydlog mewn perthynas â Gweithdrefn y Cynulliad ar gyfer Gorchmynion Adran 116C yn y Cyngor a chytunodd i ymateb.

## 11 Datganoli pwerau cyllidol i Gymru: Trafod yr adroddiad drafft

11.1 Cytunodd y Pwyllgor ar yr adroddiad drafft â rhai mân newidiadau.